

GOFOTA
GLANIO AR FYDOEDD ERAILL
MAE GLANIO AR BLANED, LLEUAD, NEU GOMED YN ANODD AM NIFER O RESYMAU..
MAE'CH LLONG OFOD YN TEITHIO'N GYFLYM IAWN
WIIIIIIIIII!
MAE PROFYDDION YN CYRRAEDD MAWRTH AR GYFLYMDER O TUA 6km POB EILIAD!
... FELLY BYDD RHAID ARAFU AR FRYS MAWR!
ARAF!
30
PLANED O'CH BLAEN
MAE TYNFA DISGYRCHIANT YN GALLU BOD YN GRYF...
CYN TARO ATMOSFFER Y BLANED IAU, ROEDD PROFYDD GALILEO WEDI CAEL EI GYFLYMU I 47km POB EILIAD! CYNHESWYD I 15500°C!
NEU MOR WAN FEL EI BOD HI'N ANODD GLANIO
CYMERODD Y GLANIWR PHILAE 7 AWR I DDISGYN 22km I WYNEB COMED 67P YN MIS TACHWEDD 2014
MAE NIFER O FFYRDD AR GAEL I ARAFU...
MAE POSIB TANIO ROCED YN Y CYFEIRIAD YR YDYCH YN SYMUD YNDDI
OS OES ATMOSFFER YN BRESENNOL, MI WNEWCH CHI ARAFU PAN YN TARO'R AER (OND MI FYDD ANGEN TARIAN WRES ARNOCH, NEU MI FYDDWCH CHI'N CAEL EICH LLOSGI'N ULW!)
NID FFRITHIANT... MAE AER YN CYNHESU PAN YN CAEL EI WASGU, YN YR UN MODD A PWMP BEIC!
MAE PARASIWT YN GALLU BOD YN DDEFNYDDIOL IAWN HEFYD!
GLANIO AR Y LLEUAD
MAE'R RHAN FWYAF O LANIADAU WEDI DIGWYDD AR Y LLEUAD.
Y PROFYDD CYNTAF I DARO'R LLEUAD OEDD LUNA-2 O'R UNDER SOFIETAIDD, YM 1959
• UNDEB SOFIETAIDD
• UDA (PROFYDD)
• UDA (POBL)
• TSIEINA (+ UN AR OCHR ARALL Y LLEUAD)
MAE'R MAP YMA YN DANGOS MANNAU LLE Y LLWYDDWYD I LANIO'N ESMWYTH (19 OHONYNT).
MAE DWSINAU O SAFLEOEDD ERAILL BLE MAE PROFYDDION NEU ROCEDI WEDI TARO'R WYNEB AR GYFLYMDER UCHEL (WEITHIAU YN FWRIADOL!)
Y GLANIAD ESMWYTH CYNTAF: LUNA 9
YN CHWEFROR 1966, GLANIWYD PROFYDD YN ESMWYTH AM Y TRO CYNTAF UN AR UNRHYW WRTHRYCH YN Y GOFOD.
GLANIADAU APOLLO
LLWYDDWYD I LANIO POBL AR Y LLEUAD GYDA APOLLO 11, 12, 14, 15, 16, AC 17.
AETH 2 OFODWR I LAWR I'R WYNEB BOB TRO. NHW OEDD YN GYFRIFOL AM REOLI POB GLANIAD.
"DIPYN I'R CHWITH!"
"YCHYDIG I LAWR!"
PAN YN TARO'R WYNEB, MAE POSIB DENYDDIO CLUSTOGAU AER, NEU HAEN CYWASGADWY, I ESMWYTHO'R DRAWIAD
DIGWYDDOD Y GLANIAD LLWYDDIANUS CYNTAF AR Y BLANED GWENER AR Y 15FED O RAGFYR 1970. VENERA 7 - O'R UNDEB SOFIETAIDD - GYFLAWNODD HYN.
475°C! AAAAAH!
CCCP
WNES I DROI'R FFWRN I FFWRDD GARTREF?
DARGANFYDDWYD AMGYLCHEDD FFIAIDD OFNADWY YNO!
TANWYDD
YN YSTOD Y GLANIAD CYNTAF AR Y LLEUAD YM MIS GORFFENNAF 1969, GLANIODD Y GOFODWYR NEIL ARMSTRONG AC EDWIN 'BUZZ' ALDRIN GYDA DIM OND GWERTH 45 EILIAD O DANWYDD AR OL!
ROEDD Y TANWYDD YN CAEL EI DDEFNYDDIO I DANIO ROCED. ROEDD HWN YN RHOI CYFBWYSEDD GYDA TYNFA DISGYRCHIANT.
GWTHIAD
DISGYRCHIANT
GLANIO AR FAWRTH
MAE GAN Y BLANED GOCH ATMOSFFER, OND MAE'R DENAU OFNADWY. NID YW PARASIWT YN DDIGON I ARAFU GLANIWR.
DIGWYDDOD Y GLANIAD ESMWYTH CYNTAF AR FAWRTH IN 1971. DEFNYDDIODD Y PROFYDD SOFIETAIDD MARS-3 ROCEDI I ARAFU, CYN GOLLWNG GLANIWR BYCHAN SIAP WY.
GWEITHIODD Y GLANIWR AM YCHYDIG O ORIAU CYN MARW MEWN STORM LWCH!
VENERA 9 A YRODD Y LLUNIAU CYNTAF YN OL O WYNEB Y BLANED GWENER, YM 1975
GLANWYD AR ASTEROID AM Y TRO CYNTAF YN 2001
34 KM O HYD
433 EROS
PROFYDD NASA NEAR-SHOEMAKER LANIODD AR EROS. DOEDD DDIM WEDI EI DDYLUNIO I LANIO, OND GWEITHIODD YN LLWYDDIANUS YNO AM 16 DIWRNOD!
GLANIODD Y PROFYDD HAYABUSA O JAPAN AR ASTEROID ITOKAWA...
CYSGOD HAYABUSA AR ASTEROID ITOKAWA
...OND WNAETH O DDIM AROS YNO! DAETH A LLWCH YN OL I'R DDAEAR YN DDIOGEL O'R WYNEB!
GLANIODD Y PROFYDD BACH PRYDEINIG, BEAGLE-2, AR FAWRTH, YN 2003. DANFONWYD BEAGLE YNO GAN Y PROFYDD EWROPEAIDD MARS EXPRESS
UN PETAL YN SOWND!
DISTAW Y BU BEAGLE-2 AR OL GLANIO. AR OL CHWILIO YN FANWL, YN 2015, GWELWYD Y GLANIWR MEWN LLUNIAU. ROEDD WEDI GLANIO YN DDIOGEL, OND NID OEDD WEDI AGOR EI BETALAU I GYD. DAN UN O'R PETALAU YMA YR OEDD YR ATENNA RADIO.
DEFNYDDIODD Y PROFYDDION AMERICANAIDD CURIOSITY YN 2012, A PERSERVERANCE YN 2021, BEIRIANT O'R ENW "SKYCRANE". GOLLYNGODD HWN Y CERBYD I'R WYNEB AR GEBL, TAN YR OEDD YR OLWYNION WEDI CYFFWRDD A'R TIR.
"GAN BWYLL RWAN!"
Y PROFYDD EWROPEAIDD HUYGENS SYDD WEDI GLANIO BELLAF O'R DDAEAR, AR TITAN
LLEUAD MWYAF Y BLANED SADWRN YW TITAN
FFWRDD A NI!
TARIAN WRES 2.7m O LED
AR OL TARO'R ATMOSFFER, DISGYNODD HUYGENS I'R WYNEB DAN BARASIWT
MAE TECHNOLEG GLANIO YN SYMUD YN EI FLAEN. MAE TARIANAU GWRES YN LLAWN AER, SEF "HYPERCONES" NAWR YN CAEL EU DYLUNO, I GANIATAU I LANWYR TRYMION DEITHIO'N DDIOGEL I'R BLANED MAWRTH.
gofota.cymru